

Llun 27^{ain} Chwefror 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr hoffwn ei wneud yw mynegi'n glir fy mod yn gwerthfawrogi'r heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Caerdydd a'ch cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynghlwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau maccsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.



Mae'r ffordd yr ydych wedi meddwl am yr hirdymor yn eich asesiad i'w gymeradwyo. Mae'r adrannau ar *Gaerdydd Yfory* yn rhoi ffocws eang strategol ar heriau'r dyfodol, yn arbennig ar y modd y maent yn cyfleu'r 'newid' sy'n ofynnol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn. Fel rhan o hyn, roedd hefyd yn drawiadol pa mor dda mae'r fformat Dinas Fyw yn eich asesiad yn cyfleu'r heriau allweddol i Gaerdydd (yn cynnwys heriau'r tymor hwy) yn nhermau newidiadau demograffig; seilwaith; rôl ranbarthol Caerdydd ac anghydraddoldeb. Mae gennych y cyfle i adeiladu ar y ddau gryfder hyn drwy gynnwys mwy o ddehongliad o effaith posibl tueddiadau'r dyfodol ar lesiant Caerdydd, ac ar eich cymunedau ac rwy'n eich annog i barhau i weithio ar hyn fel maes gwaith allweddol ar gyfer eich BGC wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

Roeddwn yn hapus i weld eich bod wedi gwneud cychwyn da gyda'ch ymagwedd tuag at ennyn **ymgyfraniad pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, a gwn fod hwn yn weithgaredd parhaus. Bydd yn bwysig i chi adeiladu ar hyn wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, gan wneud yn siŵr eich bod yn parhau i roi cyfle i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgyswngu yn y broses o ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, ac y byddwch yn medru dangos bod eu mewnbwn yn effeithio ar yr hyn a wneir gennych.

Mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd gennych tuag at strwythuro'ch asesiad, seiliedig ar y saith maes canlyniad, yn ddiddorol, ond credaf os ydy'r BGC i ddeall sut y gallwch facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol, y gallai integreiddiad a'r berthynas rhwng eich canlyniad a'r nodau gael eu hystyried a'u cyfleu yn fwy clir. Er enghraifft, mae gwahaniaeth clir rhwng y 'ffrâm' a ddefnyddir yn eich ymagwedd tuag at 'amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy', a'r nod cenedlaethol 'Cymru Gydnerth'.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd – yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei

hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi ddarparu cyngor ar sut y dylech gymryd camau i gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach o'r modd y byddwch yn gwella ac yn defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Asesiad o Lesiant Lleol Drafft Bwrdd gwasanaethau cyhoeddus Caerdydd: Crynodeb ac Adroddiad Dinas Fyw Caerdydd 2017

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd ar ymgynghoriad drafft Crynodeb o Asesiad o Lesiant Lleol drafft Caerdydd ac Adroddiad Dinas Fyw a gyhoeddwyd yn Ionawr 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd: Asesiad Llesiant Drafft: Crynodeb Ionawr 2017
- Adroddiad Dinas Fyw Caerdydd 2017: Drafft Ionawr 2017
- Ardal Partneriaeth Cymdogaeth: dogfennau ar gyfer Caerdydd: Gogledd; De; Dwyrain; Gorllewin; De Ddwyrain, De Orllewin
- Trosolwg: Taenlen Ystadegau
- Trafodaeth dros y ffôn rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 10fed Chwefror

Bwriedir i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddiad yr asesiad yng ngwanwyn 2017 - Ile mae hynny'n bosibl o gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli - ond mae'n bwysicach ei fod yn trwytho prosesau parhaus datblygiad eich asesiad a'ch cynllunio llesiant.

Mae'r asesiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad, methodoleg a dadansoddiad yr asesiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at asesiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

Tra'n bod yn deall o'n sgwrs dros y ffôn bod yr Aseidiadau Llesiant yn broses barhaus, a bod gwaith pellach ar y gweill, mae'n bwysig bod y sylwadau canlynol yn cael eu nodi ac y byddir yn gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio llesiant ar draws y BGC.

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion a ystyriwyd gennym yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut maent yn cynllunio i facsimeiddio'u cyfraniad i'r nodau. Mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data mewn aseidiadau, ei ddehongliad a'n dealltwriaeth ni o bob agwedd ar ein llesiant yn ein cymunedau.

Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Caerdydd drwy ffrâm y 'Ddinas Fyw' a saith canlyniad llesiant allweddol.² Mae'r rhesymeg dros ddefnyddio'r fframwaith hwn yn glir ac roedd y ddogfen Gryno a'r sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC yn ddefnyddiol iawn i'n helpu i ddeall y weledigaeth a'r broses a ddatblygwyd gan y BGC, a sut mae dulliau o weithio wedi eu datblygu fel canlyniad i'r Ddeddf parthed ymgysylltiad dinasyddion; meddwl yn yr hirdymor ac ystod ehangach o 'fesurau'.

Tra'n bod yn deall bod yr ymagwedd hon wedi esblygu o waith partneriaeth blaenorol, gellid gwella'r asesiad gydag eglurhad cliriach o sut a pham y dewiswyd y saith canlyniad. Pam mae'r canlyniadau a'r mesurau atodol hyn yn arbennig o bwysig i Gaerdydd, a pham na ddefnyddiwyd mesurau posibl eraill o 'berfformiad y ddinas'?

I'r BGC ddeall sut y gall facsimeiddio'i gyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol, credwn y bydd angen i'r berthynas rhwng y canlyniadau yn yr asesiad a'r saith nod llesiant gael eu deall a'u cyfleu yn glir. Er enghraifft mae gwahaniaeth clir rhwng y 'ffrâm' a ddefnyddiwyd

² Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw a gweithio a chwarae ynddo; Mae gan Gaerdydd economi llewyrchus sy'n ffynnu; Mae pobl yng Nghaerdydd yn Ddiogel ac yn teimlo'n Ddiogel; Mae pobl yng Nghaerdydd yn cyrraedd eu llawn botensial; Mae gan Gaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy; Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynwysol.

yn ymagwedd Caerdydd tuag at 'amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy', a'r nod cenedlaethol 'Cymru Gydnerth'. Mae'r ffrâm leol hon i'w chrosawu, ond cwestiwn allweddol yw sut fydd y BGC yn maxsimeiddio'i gyfraniad i nod Cymru gydnerth, sef 'gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol, cydnerthedd ecolegol a'r gallu i addasu i newid'.

Tra cyfeirir at y saith nod llesiant cenedlaethol yn y cyflwyniad, nid oes cyfeiriad atynt o dan y saith canlyniad nac o fewn y dystiolaeth na'r dadansoddiad o fewn pob adran. Mae'r adrannau '*Caerdydd Yfory*' o dan bob 'canlyniad' yn rhoi cyfle i awduron ddatblygu a disgrifio'r cysylltiad hwn. Gellid mynd i'r afael â hyn hefyd gyda thabl syml yn egluro cyfraniad pob un o'r canlyniadau i'r nodau llesiant cenedlaethol fel rhan o'r cyflwyniad i'r adroddiad Dinas Fyw. Buasem yn disgwyl gweld eglurhad cryfach o'r berthynas hon mewn sylwadau yn yr asesiad yn y dyfodol a thrwy gydol y broses gynllunio llesiant yng Nghaerdydd.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn.

Gwneir defnydd da o ddata Caerdydd-gyfan, data'r DU, data rhanbarthol a chymharol i drwytho'ch asesiad. Rhydd hyn ddealltwriaeth eang o'r mathau o heriau i lesiant a sut mae Caerdydd yn cymharu â bwrdeistrefi eraill. Fodd bynnag, mewn mannau mae'r data angen llawer mwy o ddehongliad i ddeall *arwyddocâd* y mater i Gaerdydd yn gyffredinol, a beth mae'r gymhariaeth yn ei chyfleu. Mae llawer o adrannau'n gwneud dim byd mwy na disgrifio'r data (os gwelwch yn dda gweler sylwadau ar ddata Addysg ym mhwynt 5 isod). Mae datblygu dehongliad a chyfleu arwyddocâd yr heriau yn ddwy thema y byddwn yn cyfeirio atynt nes ymlaen yn y ddogfen adborth hon.

Mae'n glir bod data ar gael yn hawdd ar gyfer rhai canlyniadau (e.e. Amddifadedd) a hyn yn ein galluogi i ddeall yr anghydraddoldebau gofodol ar draws Caerdydd. Mewn meysydd eraill mae'n amlwg bod yna lai o ddata meintiol i egluro'r gwahaniaethau rhwng lleoliadau. Gellid casglu mwy o ddata ansoddol a'i ddefnyddio i ddatblygu naratif drwy'r holl asesiad yn y meysydd hyn. Dim ond rhan o'r stori am lesiant a sut le yw Caerdydd i fyw ynddi a ddywedir wrthym gan y data a'r mesurau.

Mae yna le i gryfhau eich dadansoddiad drwy roi mwy o ffocws ar gymunedau unigol ar draws ardal Caerdydd. Mae gennych y cyfle i gynyddu'r ddealltwriaeth o lesiant o fewn a

rhwng gwahanol ardaloedd a lleoedd, o anghydraddoldebau ac mewn perthynas â materion lleol difrifol. Credwn y dylai asesiad llesiant roi dealltwriaeth fwy lleol (a llai homogenaidd) o lesiant, a byddwn yn edrych am dystiolaeth o hyn wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo .

Peth cadarnhaol yw gweld datblygiad dogfennau Ardal Partneriaeth Cymdogaeth ar gyfer Gogledd; De; Dwyrain; Gorllewin; De Ddwyrain; De Orllewin Caerdydd. Ar hyn o bryd mae eu ffocws i raddau helaeth ar ddata gyda 44 mesur gwahanol o *Holi Caerdydd* a ffynonellau eraill. Cadarnhaol yw clywed bod y data eisoes yn cael ei gasglu ar asedau a gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pob ardal. Mae'n bwysig bod y data hwn, unwaith y bydd wedi ei gasglu, yn cael ei ddehongli, ac y bydd data ansoddol yn cael ei ychwanegu i helpu cydweithio ym mhob ardal ac ar draws Caerdydd yn gyffredinol.

Mae hefyd yn gadarnhaol bod yr asesiad yn cydnabod pwysigrwydd a her cynnal ynni critigol, dŵr, trafnidiaeth a seilwaith arall sy'n cynnal llesiant a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, beth a olyga'r heriau hyn i Gaerdydd yn benodol? Oes yna ddigon o seilwaith ynni a chyflenwad dŵr i gynorthwyo twf economaidd? Pa lefel o reoli llifogydd sydd ei angen? A yw ffyrdd Caerdydd yn gydnerth yn wyneb newid hinsawdd? Byddai crynodeb o faterion seilwaith allweddol a'r heriau arbennig i Gaerdydd yn fanteisiol.

4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r anghenion hyn wedi eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig ac unigolion.

Blaenoriaeth i fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o weledigaeth iddynt o brofiadau pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail weithredu ar y mewnwelediadau hyn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflwyno gwasanaethau.

Mae'n beth cadarnhaol i weld llawer o'r adrannau o dan bob 'canlyniad' yn rhoi gwybodaeth feintiol ac ansoddol ar wasanaethau cyhoeddus ac rydym ar ddeall y bydd dogfennau NPA hefyd yn casglu gwybodaeth ar wasanaethau cyhoeddus. Mae data oddi wrth *Holi Caerdydd*, Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Archwiliad Trefol yn darparu adnodd da i'r BGC fyfyrion arno parthed y newid sy'n ofynnol o du gwasanaethau cyhoeddus yn wyneb yr heriau a nodir yn y ddogfen. Mae hefyd yn braf clywed bod Canolfan Ymchwil Caerdydd wedi bod yn gweithio ar Asesiad Anghenion Poblogaeth yn ogystal ag ar asesiad llesiant. Edrychwn ymlaen at weld sut fydd y gwaith hwn ar y NPA yn trwytho'r asesiad llesiant.

Gellid cryfhau'r asesiad drwy ddangos yn gliriach *sut* y bydd yn angenrheidiol, hwyrach, i wasanaethau newid i gwrdd â heriau newydd. Rydym yn cydnabod y bydd hwn yn creu rhan o'ch gwaith yn y broses cynllunio llesiant. Buasem yn eich annog i ystyried yr hyn a ddywed yr wybodaeth a gasglwyd gennych am ddigonoldeb gwasanaethau; p'un a oes bwlch mawr mewn gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r canlyniad; graddfa'r her i'r gwasanaethau cyhoeddus o'r canlyniad, a rôl bosibl y BGC a sectorau eraill yn y dasg o ddatblygu gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r mater.

Gallai datblygu negeseuon allweddol i'r BGC fod yn rhan o hyn, ac i'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, am y newid sylweddol sy'n debygol o fod yn ofynnol i gwrdd â'r heriau a nodir yn y ddogfen *Dinas Fyw*.

5. Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o gydbwyso data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Yn gyffredinol mae yna ddefnydd da o ddata meintiol i ddisgrifio'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, mewn llawer man mae'r naratif atodol yn rhy ddisgrifiadol a byddai ar ei ennill o gael dehongliad pellach i ddeall *arwyddocâd* y data (mae hyn yn arbennig o berthnasol i addysg a rhai o'r mesurau amgylcheddol). Byddai hyn yn ein helpu i ddeall y sefyllfa'n well. Yn gyffredinol mae angen gwneud mwy o waith i ennill ymdeimlad o raddfa, arwyddocâd a goblygiadau i lesiant.

Yn hyn o beth, gwneir llawer gwell defnydd o ddata ansoddol ac mae rhai adrannau 'canlyniadau' yn rhoi dadansoddiad ardderchog sythweledol sy'n helpu i ddisgrifio arwyddocâd y sefyllfa bresennol (mae hyn yn arbennig o berthnasol i *Mae Pobl yng Nghaerdydd yn Iach ac Mae Caerdydd yn Gymdeithas Deg, Gyfiawn a Chynhwysol*). Dylid defnyddio'u data ansoddol a meintiol, dehongliad a naratif cytbwys fel meincnod ar gyfer 'canlyniadau' eraill, yn arbennig yn yr adrannau *Caerdydd Yfory*.

Mae'r sylwadau isod yn rhoi adborth mwy manwl ar yr adrannau 'canlyniadau'.



*Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw a gweithio a chwarae ynddo: mae'n gadarnhaol iawn gweld boddhad â'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd, ac mae'r Archwiliad Trefol yn rhoi gwybodaeth ardderchog am ba agweddau ar Gaerdydd sy'n ei gwneud yn dda i fyw ynddi. Rhoddir ffocws mawr ar gymhariaeth a gallai'r naratif wneud â mwy o ddehongliad o'r hyn a ddywed y gymhariaeth hon wrthym. Gwneir defnydd da o wybodaeth oddi wrth yr arolwg *Holi Caerdydd* ac Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r adran hon yn rhoi arwydd clir o'r newid sy'n ofynnol mewn tai a safon byw mwy cyfartal, ond byddai rhoi mwy o bwyslais ar oblygiadau'r newid hwn i'r gwasanaethau cyhoeddus wedi bod yn fanteisiol.*

*Mae gan Gaerdydd economi llewyrchus sy'n ffynnu. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o dwf economaidd ac amddifadedd. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth oddi wrth *Holi Caerdydd*. Mae'n gadarnhaol gweld y cysylltiad rhwng diweithdra, troseddu ac iechyd meddwl – byddai'r asesiad ar ei ennill o gael mwy o'r dadansoddiad integredig hwn drwyddi draw (gweler y sylwadau ar Integreiddio o dan bwynt 9). Gellid gwella ffocws cul y mesurau gyda dadansoddiad ansoddol pellach o rai o'r materion canlynol: a yw busnesau newydd yn cael eu cynnal? Beth yw effaith dosbarthiad gofodol cyflogaeth ar draws Caerdydd? Beth yw rôl mentrau cymdeithasol a'r economi nad yw'n seiliedig ar arian yn yr ardal? Oes yna agweddau eraill ar gyfalaf economaidd a fedr ddarparu synnwyr ehangach o'r agwedd hon ar lesiant? e.e. pobl oedrannus fel ased economaidd; rôl bosibl Prosiect y Ddinas-ranbarth (gweler sylwadau o dan bwynt 11).*

*Mae pobl yng Nghaerdydd yn Ddiogel ac yn Teimlo'n ddiogel. Mae'r adran hon yn disgrifio'r data, a byddai ar ei hennill o gael mwy o sylwebaeth ar bob 'mesur' a pheth dehongliad gan ei bod ar hyn o bryd yn teimlo fel ei bod yn ffocysu'n bennaf ar berfformiad. Mae arnom angen mwy o deimlad o arwyddocâd y mesurau hyn i'r cysyniad o Gaerdydd fel lle da i fyw ynddo. Caiff data oddi wrth *Holi Caerdydd* ei ddefnyddio'n dda ac mae'n braf gweld bod gwahaniaethau gofodol yn cael sylw yn yr adran *Caerdydd Yfory* - gellid bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar y rhain yn gynt. Mae'r gymhariaeth â dinasoedd craidd yn ddefnyddiol a cheir sylwebaeth ardderchog ar gydlynid cymunedol a symudiad pobl.*

Mae Pobl yng Nghaerdydd yn Iach. Caiff materion cymhleth yn ymwneud ag anghyfartaledd mewn disgwyliad oes, ffyrdd iach o fyw, effeithiau newid demograffig ac effaith ar y sector cyhoeddus i gyd eu hegluro'n dda, gyda chefnogaeth data meintiol ac ansoddol. Mae hwn yn lefel ardderchog o ddehongliad sy'n egluro pam mae materion yn bwysig i lesiant – ymagwedd a ddylid ei hannog ar draws pob canlyniad a mesur.

*Mae gan Gaerdydd amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy. Mae'n galonogol bod rhagair y Cadeirydd yn awgrymu rhoi'r mater hwn yng nghanol y drafodaeth ar Gaerdydd fel lle da i fyw ynddo. Mae'r sylwebaethau ar ansawdd yr amgylchedd, peryglon llifogydd a manau agored gwyrdd yn gytbwys. Ymddengys bod y mesurau a ddarperir yn rhoi darlun cul o'r canlyniad hwn a chodir nifer o gwestiynau yn sgil hyn: pam mae ailgylchu'n cael ei ddefnyddio fel mesur, heb unrhyw ddehongliad am ei effaith ar lesiant. Nodir bod yr adran *Caerdydd Yfory* yn ffocysu ar gynhyrchu gwastraff fel her allweddol ochr yn ochr â thwf economaidd. Pam mae ailgylchu (ac nid cynhyrchu gwastraff) yn cael ei ddefnyddio fel mesur o ansawdd amgylcheddol? Mae allyriadau'n fater o bwys yng Nghaerdydd; a ddylai'r rhain gael eu trafod yn yr adran iechyd? Mae seilwaith ynni'n amlwg yn fater o bwys - beth yw'r sefyllfa bresennol? A fedr seilwaith ynni gynorthwyo twf economaidd? Pa gyfran o'r galw am ynni y gellir ei ddiwallu gan ynni adnewyddol? Pa fioamrywiaeth sy'n dirywio ac o dan fygythiad? Gallai'r canlyniad hwn ddarparu llawer mwy o gyd-destun ar gyfer rhai o'r cwestiynau sylfaenol hyn am lesiant yng Nghaerdydd.*

*Mae cymdeithas Caerdydd yn deg, yn gyfiawn a chydlynol. Mae'r cyflwyniad i'r adran hon yn ardderchog, yn dda ar wahaniaethau gofodol, ac yn rhoi dehongliad da iawn o amddifadedd incwm, tlodi, incwm ac anghydraddoldebau iechyd. Mae *Caerdydd Yfory*'n nodi'r heriau i'r BGC o'r tueddiadau a drafodwyd.*

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal â'r priodoleddau cadarnhaol a'r asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau, asedau a diffygion o fewn yr ardal.

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn bod yr asesiad wedi ei fwriadu i annog sgwrs am yr heriau yng Nghaerdydd a sut i fynd i'r afael â hwynt. Er gwaethaf ein sylwadau am ddehongli, credwn y dylid cymeradwyo'r modd y mae'r ddogfen *Dinas Fyw* yn cyfleu'r heriau i Gaerdydd. O'r rhagair hyd yr adran olaf mae eglurder am beth yw'r heriau o bwys yn nhermau newid demograffig, seilwaith, rôl ranbarthol Caerdydd ac anghyfartaledd. I adeiladu ar hyn byddai mwy o ddehongliad o arwyddocâd yr heriau hyn yn helpu darllenwyr, yn eu dro, i ddeall yr heriau i'r gwasanaethau cyhoeddus.



Mae yna ddata cyfoethog yn y ddogfen sy'n cynrychioli dadansoddiad mewnweledol a dylai hyn fod yn fwy amlwg mewn crynodeb cyffredinol o fewn y brif ddogfen. Mae'n amlwg bod yna rai materion creiddiol sy'n cael eu disgrifio o fewn y naratif a ddylai ddarparu cefndir cryfach i bob un o'r canlyniadau: anghydraddoldebau mewn iechyd a safon byw; cydnerthedd seilwaith; ymdopi â thwf poblogaeth; llygredd aer a'r perygl o lifogydd; adnoddau cyfyngedig ar gyfer gofal cymdeithasol; dim digon o dai; 60,000 o bobl yn byw mewn tldi; diwygio lles; effeithiau newid hinsawdd; caledi; disbyddiad adnoddau naturiol. Mae hwn yn faes lle gallai data a gwybodaeth gyfredol helpu i ddarparu cyd-destun strategol cyffredinol ar gyfer gwaith y BGC.

I'r perwyl hwn awgrymwn gynnwys adran tuag at ddiwedd y ddogfen sy'n ffocysu ar ymgynghoriad pellach a mwy o waith ar y *Strategaeth Dinas Fyw* dros y flwyddyn sy'n dod a fydd yn crynhoi'r prif heriau ag arnynt angen rhagor o drafodaeth. Cwestiynau allweddol yw: sut fedr y BGC weithio gydag eraill ar draws y ddinas i fynd i'r afael â'r heriau mawr hyn i gyflawni'r effaith mwyaf a mynd i'r afael â chanlyniadau niferus? Sut fedrant facsimeiddio eu cyfraniad i lesiant drwy fynd i'r afael â'r heriau hyn? Beth yw'r cyfaddawdau mwyaf a'r tensiynau rhwng yr heriau hyn a chanlyniadau.

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Helpodd y drafodaeth dros y ffôn ni i ddeall y gwaith sydd ar y gweill yn yr ymgynghoriad ar yr asesiad. Mae'n amlwg, oherwydd y gweithgaredd hwn mai dim ond darlun rhannol sydd gennym o'r deunydd ymgynghori sy'n cael ei ddefnyddio i drwytho'r asesiad. Rhoddodd lansiad y Fforwm Dinas Fyw yn Ionawr 2017 gychwyn da i'r broses hon.

Gallwn weld yr ymdrech sydd wedi ei buddsoddi yn yr arolwg ar-lein *Holi Caerdydd* (a ddatblygwyd ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg) a deallwn y lefelau o gydweithio ar draws y bartneriaeth i ddatblygu'r asesiad. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am yr ymgysylltiad presennol a sut mae wedi trwytho ymagwedd y *Ddinas Fyw* yng Nghaerdydd.

Mae'r ddogfen Gryno'n rhoi trosolwg da o'r broses o gynhyrchu'r Adroddiad *Dinas Fyw*, ond gellid gwella hwn drwy roi gwell dealltwriaeth o beth yw gwerth ychwanegol cydweithio ac ymgysylltu, ac a yw'r ymagwedd wedi newid fel canlyniad i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler sylwadau nes ymlaen o dan bwynt 12). Bydd hefyd yn ddiddorol i ddeall lefel yr ymgysylltiad â'r trydydd sector a'r sector preifat yn y broses gan ei bod yn aneglur ar hyn o bryd ble mae eu persbectifau hwy wedi eu cyflwyno.

Roedd hefyd yn braf clywed i ba raddau mae'r asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC. Dylai'r Asesiad terfynol egluro manteision y cydweithio hwn, natur ei gyfraniad, a ble gallai gweithio ar y cyd gael ei wella. Mae'r cydweithio hwn yn gadarnhaol a dylid adeiladu arno wrth ichi symud ymlaen i gynllunio llesiant.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws polisi traddodiadol a seilos sefydliadol, i ddehongli beth a olyga hyn i lesiant yn yr ardal.

Mae yna le i roi mwy o ystyriaeth i'r data o bob canlyniad (a mesurau atodol) ochr yn ochr â data'r lleill, ac ystyriaeth o'r cydgysylltiadau rhwng data. Mae'r cydgysylltiadau rhwng diweithdra, anghydraddoldeb, iechyd a throseddau yn cael eu crybwyll, ond mae yna lawer o gydgysylltiadau rhwng yr heriau allweddol a drafodwyd ym mhwynt 6 sy'n dal heb eu harchwilio. Mae hwn yn faes i chi roi mwy o ystyriaeth iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi, ac wrth i chi symud ymlaen i gynllunio llesiant.

Mae'n braf gweld y lefel o integreiddio gwybodaeth o'r Cynllun Datblygu Lleol ar safleoedd datblygu strategol. Dylid parhau gyda hyn gan y gallai eu mewnbwn a'u data eich helpu i archwilio rhai o'r cydgysylltiadau a ddisgrifir uchod a rhai o'r materion sy'n berthnasol i dueddiadau rhanbarthol a thueddiadau'r dyfodol a amlygir yn yr adrannau nesaf. Nodir hefyd y cysylltiad â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a ffynonellau data statudol eraill.

Deallwn fod gwaith eisoes ar y gweill a chynlluniau i archwilio ymhellach ganfyddiadau'r asesiad gyda phartneriaid; dylai'r archwiliad o'r gydberthynas hon rhwng meysydd polisi ffurfio rhan o'r gweithgaredd hwn. Dylai integreiddio ar draws themâu llesiant fod yn fater pwysig i'r BGC i'w ystyried wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Llesiant, nid y lleiaf er mwyn deall

y gall y bydd yna angen i adnoddau a'r sector cyhoeddus addasu wrth fynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws seilos polisi traddodiadol.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd awduron adrannau *Caerdydd Yfory'n* rhoi ffocws strategol cyffredinol ar heriau'r dyfodol ac mae'r ymagwedd hon i'w chymeradwyo – yn arbennig parthed y 'newid' sy'n ofynnol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hyn yn cyferbynnu â'r mesurau cymharol gul o dan bob canlyniad sy'n adrodd dim ond rhan o stori llesiant. Fel y trafodwyd yn gynharach gellid gwella'r adrannau hyn drwy ddatblygu cyd-destun mwy ansoddol sy'n cynnwys tueddiadau'r hirdymor (gwnaethpwyd hyn yn dda yn yr adran iechyd).

Mae rhoi mwy o ystyriaeth i effaith tueddiadau'r dyfodol ar ganlyniadau'n rhywbeth y buaswn yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r *Strategaeth Dinas Fyw* gael ei datblygu. Er enghraifft byddai wedi bod yn fuddiol i archwilio pa mor agored i niwed/gydnerth yw ynni, dŵr a thrafnidiaeth Caerdydd a seilwaith arall yn wyneb tueddiadau'r dyfodol. A yw'n medru cynnal yr economi a darparu'r sylfeini ar gyfer llesiant ar draws y saith canlyniad? Beth yw rôl y BGC yn natblygiad cydnerthedd?

Deallwn o'n sgwrs dros y ffôn bod cyfle i gynnwys mwy o ddadansoddiad o effaith posibl tueddiadau'r dyfodol ar lesiant. Buaswn yn eich annog i dalu sylw i hyn o fewn y BGC wrth i'ch gwaith fynd rhagddo.

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml i fynd i'r afael â hyn: Gwneud crynodeb o heriau'r tymor byr, canolig a'r hirdymor i bob canlyniad, adnabod ble mae goblygiadau posibl arwyddocaol ar gyfer eich ardal, a bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau'r hirdymor. Gallai'r ymagwedd hon helpu'r BGC i flaenoriaethu heriau hollbwysig lle mae angen gweithredu ar y cyd neu fwy o ddadansoddiad.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai

anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn yr asesiad cyntaf a gyhoeddir yn y misoedd sydd i ddod.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r cyfeiriad at brosiect y Ddinas-ranbarth yn gadarnhaol, ond gellid ei wella drwy ddweud *pa* fanteision a ragwelir o'r datblygiad mawr hwn. Mae'r prosiect yn debygol o effeithiol ar bob agwedd ar y gymuned ar draws Caerdydd. Hyd yn oed os ydyw'r effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn cael dylanwad ar gydlynid, cydraddoldeb, cydnerthedd ac yn y blaen. Gellid addasu'r adran bresennol i fod yn fwy deongliadol am ei effaith, a gellid cyfeirio ato lle mae hynny'n berthnasol o dan ganlyniadau eraill (yn arbennig y canlyniad Ffyniant, lle mae ar hyn o bryd ar goll o'r naratif).

Credwn y byddai dealltwriaeth fwy manwl o faterion rhanbarthol a thrawsffiniol allweddol sy'n effeithio ar Gaerdydd yn fanteisiol, i drwytho proses y cynllun llesiant. Dim ond cyfeiriad cyfyngedig a wneir at y rhanbarth ar draws y saith canlyniad a lle caiff ei grybwyll, ychydig o ddehongli a geir. Fel y crybwyllwyd eisoes, mae angen mwy o ddehongli ar gymariaethau rhanbarthol i ddeall eu harwyddocâd.

Cadarnhaol yw gweld y data ar gymudo ar gyfer deall y ffrwd o weithwyr sy'n symud ar draws y ddinas-ranbarth. Hefyd byddai'n ddefnyddiol i ddeall natur y gydberthynas ag awdurdodau cymdogol a phartneriaid rhanbarthol eraill. Yn hyn o beth, bydd hefyd yn bwysig i'r BGC ystyried canlyniadau asesiadau lleol cymdogol o lesiant wrth i gynhyrchiad y cynllun ddatblygu. Mae'r ffocws rhanbarthol yn rhywbeth y buasem yn disgwyl ei weld yn cael sylw mewn sylwadau yn y dyfodol am yr asesiad i drwytho cynllunio llesiant yng Nghaerdydd, gan lunio, hwyrach, ran o'r cyd-destun ehangach ar gyfer y ddogfen *Dinas Fyw* fel y trafodwyd ym mhwynt 6.

11. Ansawdd data a bylchau mewn data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn

awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Deallwn o'n sgwrs bod gwaith ar y gweill ar dlodi ac yn y chwe Phroffil Ardal Cymdogaeth i ddatblygu darlun cliriach o lesiant yn arbennig ar lefel mwy lleol.

Mae'n wirioneddol gadarnhaol i weld yr adran yn y Crynodeb '*Bylchau yn yr hyn a wyddom*'; mae hyn yn rhoi sail dda ar gyfer datblygu eich dealltwriaeth o ble, dros amser, y gellir gwella ffynonellau data. Mae hwn yn adnodd gwirioneddol dda ar gyfer deall beth all fod ei angen yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor – h.y. beth sydd ar goll sy'n bwysig yn awr i drwytho datblygu Cynllun; beth fyddai'n dda i adeiladu dros y tymor canolig a beth yw materion data'r hirdymor. Byddai hefyd yn rhoi arwydd i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru ar anghenion y BGC.

Mae'n amlwg ein bod wedi adnabod bwch mawr yn nehongliad data a gobeithio y gellir mynd i'r afael â hyn yn fuan i drwytho'r broses cynllunio llesiant. Mae'n bwysig bod y BGC yn adeiladu ar waith presennol ac yn cynllunio i wella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a rheolaeth i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol.

12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimeiddio*'u cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n braf iawn gweld y sylwebaeth yn y ddogfen Gryno sy'n egluro sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn yr asesiad. Gellid adeiladu ar hyn a'i gryfhau fel a ganlyn:

Hirdymor – mae'r tabl yn pwyntio at dystiolaeth a ddefnyddir ar gyfer yr asesiad, ond mae'n amlwg bod yna rai syniadau blaengar ardderchog yn yr adrannau *Caerdydd Yfory* o dan bob canlyninad yn arbennig am yr heriau mawr i lesiant.

Atal – Mae defnyddio enghreifftiau o'r gwasanaethau plant wrth son am weithredu ataliol i'w groesawu ond sut mae hyn/sut allai hyn gael ei gymhwyso gan y BGC i ddatblygu agenda atal ehangach?

Integreiddio – mae hwn yn cyfeirio at waith partneriaeth, fodd bynnag mae hwn yn faes lle mae angen i chi ddatblygu eich dealltwriaeth o gydberthynas ar draws gwahanol ganlyniadau (gweler sylwadau ym mhwynt 8).

Cydweithio – mae'r ymrwymiad i hyn yn gadarnhaol – ond beth mewn egwyddor sydd wedi newid yn nhermau natur y cydweithio?

Ymgyfraniad – cyfeirir at *Holi Caerdydd*, Archwiliad Cenedlaethol Cymru a'r Archwiliad Trefol – ac mae yna ymrwymiad i gymuned ac ymgynghoriad partner statudol. Beth mewn egwyddor sy'n wahanol yn natur yr ymgyfraniad hwn?

Gellid datblygu hwn ymhellach i gyfleu sut mae hyn wedi newid yr ymagwedd tuag at ddulliau blaenorol 'traddodiadol' o ddatblygu tystiolaeth ac ymgynghori ar lesiant. Beth fu'r gwerth ychwanegol o ddefnyddio'r pum dull o weithio? Byddai hyn yn helpu sefydliadau'r BGC i gychwyn deall gwerth gwneud defnydd ohono fel dull o weithredu'r bartneriaeth.

Mae'n bwysig bod yr eglurhad hwn yn cyfleu sut y bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC. Sut fydd yr wybodaeth yn yr asesiad yn cael ei defnyddio i ddatblygu blaenoriaethau – ai cychwyn y broses hon yw'r Cryfderau a'r Heriau a restrir o dan bob thema?

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae'n gadarnhaol i weld bod y Crynodeb yn rhoi set benodol o'r *Camau Nesaf* – yn cynnwys amserlen, manylion ar y Fforwm Dinas Fyw a gweithdai cysylltiedig. Mae hyn i gyd yn glir iawn mewn perthynas â chynhyrchiad yr asesiad. Bydd yn bwysig i'r BGC gynnal ymagwedd agored a chynhwysol drwy broses gynllunio llesiant ar draws pob sector a phob cymuned.

I helpu yn hyn o beth, byddai'r dogfennau asesu ar eu hennill o gael arwydd cliriach o'r hyn fydd y cynllun terfynol yn ceisio ei gyflawni, yn achos Caerdydd, y *Strategaeth Dinas Fyw*, a sut fedr rhanddeiliaid barhau i ymgyfrannu.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a hefyd dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod hon wedi bod yn dasg enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft. Mae'r ffocws ar heriau'r hirdymor i lesiant Caerdydd wedi gwneud argraff arnom a gyda dehongliad pellach o'r data, teimlwn yn siŵr y gellid datblygu asesiad cryfach hyd yn oed i drwytho'r *Strategaeth Dinas Fyw*.

Credwn bod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol ar gyfer gwella'r asesiad:

nodau llesiant – dealltwriaeth eglurach o'r berthynas rhwng y canlyniadau a'r saith nod llesiant cenedlaethol

cyd-destun strategol – disgrifiad ehangach o heriau llesiant i Gaerdydd dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor i ddarparu'r cyd-destun ar gyfer y saith canlyniad a'r mesurau cysylltiedig

ardal a lle – i ategu'r saith canlyniad mae angen mwy o adlewyrchiad o lesiant o fewn ardaloedd arbennig o Gaerdydd, i amlygu'n well y materion allweddol ar gyfer llesiant mewn gwahanol leoliadau a'r asedau a'r anghydraddoldebau ar draws yr ardal.

Integreiddio ar draws themâu – mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y saith thema a goblygiadau'r rhain ar draws Caerdydd a'r Ardaloedd Partneriaeth Cymdogaeth

dehongliad ac arwyddocâd data – naratif a synthesis cliriach o'r hyn a ddywedir wrthym gan y data am lesiant ar lefel Caerdydd ac ar lefel Partneriaethau cyfagos a

mwy o eglurhad o arwyddocâd y data a heriau allweddol i lesiant ar draws y saith canlyniad.

cyd-destun rhanbarthol – gwell adlewyrchiad o gydberthynas Caerdydd ag awdurdodau cyfagos (a BGCau) a'r prosiect Dinas-ranbarth Caerdydd.

tueddiadau'r dyfodol – rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar lesiant yng Nghaerdydd yn gyffredinol, ac ar ei chymunedau.

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Pen-y-bont ar Ogwr a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.